# MANTELL GWYNEDD

BWLETIN TRYDYDD SECTOR

## Grant Unigrwydd Mantell Gwynedd yn hybu gwytnwch cymunedol



Daeth pwyllgor Cymdeithas Gymunedol Y Bala a Phenllyn i fyny gyda'r syniad o "Glwb Cinio Hamddenol" fyddai yn cynnig mynediad i ginio ysgafn, ymarferion, cornel sgwrsio a gemau bwrdd, ymysg gweithgareddau eraill.

Cyflwynodd y Gymdeithas gais am grant i Gronfa Unigrwydd Mantell Gwynedd er mwyn ariannu'r gweithgareddau.

Bu iddynt lwyddo i gael grant o £738.10 a threfnwyd nifer o weithgareddau gyda'r cyllid yma.

Yn ogystal â'r uchod cafwyd sesiynau bowlio trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn annog y di-Gymraeg fagu hyder i geisio siarad yr iaith wrth chwarae ag ymarfer.



Cafwyd teithiau cerdded o gwmpas caeau chwarae gyda chroeso i anifeiliaid anwes unigolion gael ymuno. Bu'r teithiau hynny yn help i godi lefel ffitrwydd yn ogystal â chymdeithasu.

Bu'r cyfan yn fodd i gryfhau gwytnwch cymunedol yr ardal.


Mae stori'r Gymdeithas Gymunedol yn dangos sut mae swm bychan o arian yn medru mynd yn bell iawn o fewn y gymuned

**DA IAWN CYMDEITHAS GYMUNEDOL BALA A PHENLLYN !**

**Ffôn: 01286 672 626**
**Gwefan: www.mantellgwynedd.com**
**E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com**




## 3ydd-9fed o Fehefin 2024




WYTHNOS GWIRFODDOLWYR
Dathlu 40 Mlynedd
VOLUNTEERS' WEEK
40th Anniversary
Rhwydwaith Gwirfoddoli a Llesiant Gwynedd
Volunteering and Well-being Network
'Speed Dating'
Ymunwch gyda ni ar gyfer ein digwyddiad 'Speed Dating' blynyddol! Prif ffocws y digwyddiad yw codi ymwybyddiaeth o wasanaethau yng Ngwynedd. Dewch draw i hyrwyddo eich gwasanaethau a chreu cysylltiadau gyda sefydliadau newydd.
Join us for our annual 'Speed Dating' event! The main focus of the event is to raise awareness of services in Gwynedd. Come along to promote your services and make connections with new organisations.
05/06/2024
Clwb Pêl-droed Porthmadog Football Club
10am-2pm
JUNE
5
Cofrestrwch erbyn
Register by
29/5/2024
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com
01286 672 626
MANTELL GWYNEDD
CANOLFAN GWIRFODDOLI • VOLUNTEER CENTRE
FFYNIANT BRO
LEVELLING UP
Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU



MAKE THE PLEDGE!
Lend a hand with us for The Big Help Out
THE BIG HELP OUT
#TheBigHelpOut
7th - 9th June


26 – 30/06 Wythnos Lles Y Byd
World Wellbeing Week
MANTELL GWYNEDD
IECHYD DA'R HA'
27.06.24 10 - 3
Neuadd y Farchnad, Caernarfon LL55 1RR
Dewch atom i grwydro'r amrywiol stondinau, casglu gwybodaeth a rhoddion, profwch sesiwn blasu neu sgrinio iechyd, a dysgu mwy am sut i wella IECHYD & LLESIANT ar ddechrau'r ha'
free
Am ddim
Come and join us at the Health & Wellbeing event. Explore various stalls, gather information and freebies, experience a taster session or health screening, and discover ways to enhance your health and wellbeing as summer approaches.
Rhagor o wybodaeth / more info:
sioned.roberts@mantellgwynedd.com
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626
Cofrestrwch am stondin erbyn / register for a stall by: 24.06.24
Iechyd da'r Ha'

## Digwyddiad Gwybodaeth Grŵpiau Lleol MS

Ar gyfer pobl sy'n byw gydag MS, teuluoedd a gofalwyr.

MS Society Cymru



**Ymunwch ag aelodau Grwpiau MS Sir Drefaldwyn, De Gwynedd a Cheredigion ar gyfer Diweddariadau Ymchwil MS, Gwybodaeth, Bwyd, Coffi/Te, Sgwrs a Boccia (Bowlio ar Eistedd).**

**Pryd?**
Dydd Sadwrn, 15 Mehefin - **11yb - 2yp**
**Lle?**
Y Plas, Heol Aberystwyth, Machynlleth, Powys SY20 8ER

**I fynychu, cysylltwch â: brian.watson@mssociety.org.uk**




## Sianel Gymraeg newydd sbon i blant bach a'u teuluoedd

*A brand new Welsh channel for young children and their families*



**Tanysgrifia heddiw** **youtube.com/@DewinaDoti**

i helpu Dewin i gyrraedd ei darged o 10,000 o danysgrifwyr er mwyn i'r sianel fod ar blatfform YouTube Kids.

***Subscribe today*** **youtube.com/@DewinaDoti**

*to help Dewin reach his target of 10,000 subscribers which will allow the channel to appear on YouTube Kids.*

SOCIAL VALUE CYMRU

@Valuecymru

MANTELL GWYNEDD

## RHWYDWAITH GWERTH CYMDEITHASOL GOGLEDD CYMRU

**Susan Ikin, Rheolwr Effaith a Gwerthuso, The Rainbow Foundation**

Rhannu ei phrofiadau hi a'r mudiad o werth cymdeithasol

## NORTH WALES SOCIAL VALUE NETWORK

**Susan Ikin, Impact and Evaluation Manager, The Rainbow Foundation**

Will be sharing her experiences and the organisation's experience of social value

**Dydd Mawrth, 18 Mehefin / Tuesday, 18th June**
**10.30 – 12.30**

# Digartref

Supporting People – Improving Lives

**2 x Gweithiwr Allgymorth Defnyddio Sylwedd**
**(Anghenion Gwynedd ac Ynys Môn)**
**Pwynt cyflog 20 i 21 £23,530.52 - £24,319.36**
**(1 x 37 awr yr wythnos, 1 x 17.5 awr yr wythnos)**

Mae arnom eisiau recriwtio gweithiwr Allgymorth brwdfrydig a phrofiadol fydd yn gallu cydweithio gyda thîm ymateb amlasiantaethol, yn cefnogi unigolion agored i niwed ag anghenion cymhleth sy'n cynnwys: iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, tai ac yn y blaen, ac nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth yn gyffredinol.

Y nod fydd darparu gwasanaeth cefnogi cyfannol, gan fynd â hyn allan i bobl yn eu cymunedau ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Efallai y bydd hynny yng nghartrefi unigolion neu mewn canolfan leol/safle galw heibio.


Disgwylir i ddeiliad y swydd gynnig cymorth gyda'r nod o fynd i'r afael â phroblemau a fo'n effeithio ac yn cyfrannu i sefyllfa'r unigolyn a'i ffordd gymhleth o fyw. Gall hyn gynnwys rhoi cyngor, cefnogaeth, gwybodaeth neu atgyfeirio ymlaen gyda golwg ar lety neu ddigartrefedd, budd-daliadau lles, iechyd meddwl, defnyddio sylweddau, addysg, hyfforddiant neu gyfleoedd gwaith. At hynny, efallai y bydd angen cymorth hefyd i gwrdd ag anghenion sylfaenol defnyddwyr gwasanaeth, e.e. mynediad at fwyd, lloches, dillad ac yn y blaen.
Yn ddelfrydol, disgwylid i ymgeiswyr feddu ar y canlynol:

- Cymhwyster/profiad addas ym maes tai/digartrefedd ac o weithio gydag unigolion ag anghenion cymhleth
- Profiad o ddarparu gwasanaethau cymorth unigolyn-ganolog
- Agwedd hyblyg at oriau gwaith gan gynnwys gyda'r nosau a phenwythnosau pan fo angen

·Y gallu i yrru car, ac mae cael car i'w ddefnyddio yn hanfodol
·Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
·Bydd ar yr ymgeisydd llwyddiannus angen gwiriad DBS manylach fydd yn cael ei brosesu gan Digartref Cyf.

Am fwy o fanylion ynghylch y swydd hon, ewch i'n gwefan www.digartref.co.uk neu ffoniwch 01407 761653

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau: 12yp 04.06.2024



Addysg Oedolion Cymru
Adult Learning Wales

Lles

wyneb yn wyneb

## Ysgol Haf yn Asynnod Eryri

**01/07/2024 | Dydd Llun i Ddydd Gwener 09:30 - 15:30 | Sesiynau: 10 | Tiwtor: Ruth Stronge**

### Trosolwg o'r Cwrs

Lleoliad - Asynnod Eryri (Snowdonia Donkeys), Moelyci, Lôn Felin Hen, Tregarth, Bangor LL574BB

Mae Asynnod Eryri yn cynnig cyfle cyffrous i hyd at 8 o bobl ifanc weithio a hyfforddi gyda ni am bythefnos yn ystod haf 2024.
Mae'r ysgol haf yn agored i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed a bydd yn cynnwys gweithgareddau ymarferol a gwaith ysgrifenedig (wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion a galluoedd y cyfranogwyr).

Bydd cyfranogwyr yn gweithio gyda staff Asynnod Eryri i:

- ddysgu sut i ddiwallu anghenion lles dyddiol yr asynnod yn eu gofal
- cyflawni tasgau rheoli sefydlog ymarferol
- dysgu am y tir SoDdGA mae Asynnod Eryri yn ei reoli – a pham fod hyn yn bwysig
- cymryd rhan mewn tasgau cadwraeth ymarferol

**Gweithio mewn partneriaeth â:**

Angen cymorth gyda chostau dysgu?
- Offer
- Cludiant
- Deunydd ysgrifennu
- Gofal plant
- Llyfrau
- Ffioedd Arholiadau

Gofynnwch i ni am ba gefnogaeth rydym yn medru ei gynnig!

## Diddordeb? Gadewch i ni siarad!

**gwybodaeth@addysgoedolion.cymru | 03300 580845 | addysgoedolion.cymru**

Rydym yn annog a chroesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a byddwn yn ymateb i'ch dewis iaith.